

Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru

Dysgu er Cyflogaeth: Gwersi a Ddysgwyd
Ebrill 2013



future directions
for higher education in wales



cyfeiriadau'r dyfodol
ar gyfer addysg uwch yng nghymru





Rhagarweiniad

Mewn ymateb i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, Ar Gyfer ein Dyfodol (*Adran er Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau 2009*), cytunodd cynrychiolwyr o bob un o'r prif randdeiliaid mewn addysg uwch i thema wella wedi ei ffocysu ar gyfer Cymru – Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol – wedi ei hadeiladu o amgylch tri phrif faes gwaith: Dysgu er cyflogaeth, Dysgu mewn cyflogaeth a Myfyrwyr fel partneriaid. Lawnsiwyd y meysydd gwaith yn swyddogol ym Mawrth 2011 a dechreuodd y tri grŵp drafod sut y gallent fanteisio orau ar flaengarwch ac ymarfer o'r sector. Ysgogodd bob un o'r meysydd gwaith gasgliad o astudiaethau achos a gyhoeddwyd gan yr Academi Addysg Uwch yn Ebrill 2012.

Mae maes gwaith 'Dysgu er Cyflogaeth' o fenter Cyfeiriadau'r Dyfodol wedi rhannu gwybodaeth ar y gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan sefydliadau yng Nghymru i alluogi graddedigion i feithrin rhinweddau cyflogadwyedd. Derbyniodd y maes gwaith tua 70 o astudiaethau achos o bob rhan o'r sector addysg uwch. Mae'r syniad o gyflogadwyedd wedi cael ei thrafod gan aelodau o'r maes gwaith ac mae'n amlwg ei bod yn agored i ddehongliad, ond mae'r astudiaethau achos yn gytun ar y cyfan (Yorke, 2006, p. 8), sef mai cyflogadwyedd graddedigion yw sicrhau'r "sgiliau, dealltwriaeth a rhinweddau personol sy'n gwneud unigolyn yn fwy tebygol o sicrhau cyflogaeth a bod yn llwyddiannus yn y swydd o'u dewis er eu budd eu hunain, ac er budd y gweithlu, y gymuned a'r economi".

Mae'r daflen hon yn distyllu'r dysgu hanfodol mae cydweithwyr ar draws y sector addysg uwch yng Nghymru wedi eu nodi. Mae'r pwyntiau wedi eu trefnu i adlewyrchu'r themâu a gyflwynir yn ein cyhoeddiad arall sy'n cyd-redeg â hwn: 'Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol' thema wella: Dysgu er Cyflogaeth', sydd ar gael fan yma:

http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/events/academyevents/2012/Learning_for_Employment_Welsh_200412_1531.pdf

Dysgu Dilys

Mae'r rhan fwyaf o'r astudiaethau achos yn disgrifio elfennau o leoliad yn y gweithle o fewn rhaglenni neu ddysgu cydweithredol gyda chyflogwyr neu bobl broffesiynol. Mae'r astudiaethau achos, yn naturiol, yn ffocysu ar y manteision i'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn nhermau codi eu hymwybyddiaeth o ofynion y gweithle, ennill profiad proffesiynol a datblygu'r sgiliau, hunan-hyder a'r hunan-reolaeth i gynyddu eu cyfleoedd o gael mynediad i gyflogaeth pan fyddant yn graddio. Mae'r myfyrwyr eu hunain yn sôn am ddod i werthfawrogi sgiliau meddal (e.e. cyfathrebu, gweithio mewn tîm, cynllunio) ynghyd â'r teimlad eu bod yn unigolion mwy cyflawn.

Mae rhai o'r gwersi mwy cynnil a ddysgwyd yn sgîl yr astudiaethau achos yn cynnwys y canlynol.

1. Mae ymgymryd â lleoliad neu brofiad gwaith, yng ngeiriau graddedigion, yn heriol ac yn waith caled. Mae paratoi myfyrwyr yn ofalus, neu baratoi gan fyfyrwyr, cyn ymgymryd â lleoliad gwaith, yn ffactor allweddol mewn gwneud y profiad yn llwyddiant. Mae'r paratoi'n cynnwys casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r lleoliad gwaith ac ymwybyddiaeth o'r sgiliau a'r medrau a fydd yn hanfodol bwysig i wneud y profiad y llwyddiant. Mae hefyd yn bosibl y bydd myfyrwyr yn cael anhawster wrth geisio cydbwysu gofynion astudio academaidd a'r lleoliad gwaith.
2. Efallai y bydd yno angen i reoli disgwyliadau myfyrwyr, gan y gall rhai ohonynt (e.e. mewn diwydiannau creadigol neu'r celfyddydau perfformio) deimlo fod lleoliad gwaith myfyriwr neu fyfyrwyr eraill yn fwy creadigol neu fuddiol.
3. Gall cyflogwyr deimlo'n rhwystredig gyda myfyrwyr sydd heb baratoi'n ddigonol, sy'n mynnu cryn lawer o amser a chefnogaeth gan reolwyr a staff yn ystod cyfnod y lleoliad. Gellir mynd i'r afael â'r broblem hon drwy sicrhau fod gan y naill a'r llall ddealltwriaeth eglur o'r hyn maent eisiau ei gael o'r lleoliad neu amserlen y profiad yn y gweithle.
4. Gall profiad myfyrwyr sydd wedi bod ar leoliad gwaith fod o fudd i fyfyrwyr eraill gan fod y myfyrwyr ar leoliad yn ymgymryd â rôl gefnogol a dysgu gyda'u cyfoedion.
5. Mae trefniadau lleoliad gwaith wedi bod yn ffordd effeithiol i sefydliadau ffurfio cysylltiadau cryfion gyda'r gymuned leol drwy, er enghraifft, weithgareddau mewn ysgolion, gwasanaethau cwnsela cymunedol neu lysoedd ynadon. Gall y brifysgol ennill cyhoeddusrwydd da os y gellid dangos manteision i'r gymuned sy'n perthyn i'r cynllun profiad gwaith (e.e. lleihad yn y nifer sy'n ail-droseddu)
6. Os oes cyllid ar gael, mae bod â deilydd swydd i reoli'r cysylltiadau gyda'r darparwydd lleoliad gwaith (e.e. ysgol uwchradd) yn ffordd effeithiol o ymdrin â materion a phroblemau a datblygu'r berthynas ymhellach.
7. Mae cynlluniau cyfaill wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau bod myfyrwyr yn ymgysylltu'n effeithiol gyda chyfleoedd profiad gwaith, ac mae sawl gwahanol agwedd i'r cynlluniau (e.e. myfyriwr ar leoliad a mentor gan y cyflogwr; myfyriwr ar leoliad fel mentor i fyfyriwr ysgol uwchradd).

8. Mae angen i staff prifysgolion, wrth fynd ati i drefnu lleoliadau neu raglenni profiad gwaith, sicrhau nad yw hyn yn tansilio busnesau lleol (e.e. lleoliadau yn effeithio ar strwythurau ffioedd lleol neu gyflogaeth gweithwyr proffesiynol).

9. Mewn sefyllfaoedd lle mae yno elfen gystadleuol mewn sicrhau lleoliad gwaith, mae'n dal i fod yn bosibl y gall myfyrwyr aflwyddiannus gael budd o gymryd rhan yn y broses o ddedol, os yw'r broses honno ynnddi ei hun yn golygu fod myfyrwyr yn cael profiad o arferion y gweithle.

10. Mae rhai sefydliadau yn cynnig blwyddyn allan o astudiaethau academaidd neu gynlluniau blwyddyn mewn cyflogaeth. Mae myfyrwyr sy'n cyfranogi yn y cynlluniau hyn yn manteisio o'r holl fuddion a restrir uchod ar gyfer myfyrwyr ar leoliad gwaith. Er mwyn i'r cynlluniau hyn fod yn llwyddiannus, mae angen i'r sefydliad ddarparu cefnogaeth gref naill ai ar lefel adrannol neu'n ganolog drwy, er enghraifft, y gwasanaeth gyrfaedd. Mae profiad yn awgrymu fod angen digon o amser ar fyfyrwyr i asesu manteision y cynlluniau hyn, a gall fod o fudd i ddarparu dogfen briffio o'r cynlluniau sydd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

11. Mae'n gyffredin i ganolfannau ymchwil ac arloesedd i fod â ffocws ar gyfnewid gwybodaeth, ond gallent ddarparu cyfleoedd am brofiad gwaith i fyfyrwyr drwy eu pecynnau busnes a diwydiant neu brosiectau Ymchwil a Dylunio.

Ymwybyddiaeth Gyrfaoedd a Sgiliau Ymgeisio am Swyddi

Mae'r astudiaethau achos yn tueddu i ffocysu ar gynllunio datblygiad personol (PDP) a gwobrau cyflogadwyedd ar gyfer gweithgareddau all-gyrsiol. Mae canlyniadau'r astudiaethau achos yn dilyn patrwm tebyg a rhoddir crynodeb isod.

1. Gall PDP fod yn uned arwahanol o fewn rhaglen neu'n rhan annatod o fodylau sy'n bodoli eisoes. Beth bynnag fo'r strwythur, mae'n amlwg fod angen i PDP dderbyn cefnogaeth drwy gyfarfodydd tiwtorial wedi eu teilwra'n arbennig neu sesiynau gweithdy, a gall adnoddau ar-lein gynnig cefnogaeth werthfawr i fyfyrwyr. Un o fanteision adnoddau ar-lein yw y gellir eu huwch-raddio'n gyflym.

2. Dylai asesiad o PDP gynnwys sylwadau adlewyrchol, ac mae cynhyrchu CV ar gyfer y myfyriwr i bob diben yn rhan annatod o raglenni PDP.

3. Gall cydweithredu rhwng myfyrwyr, staff academaidd a gwasanaethau canolog ar PDP arwain at gydweithredu pellach a helpu i sefydlu model myfyrwyr fel partneriaid mewn datblygu gwasanaethau a chefnogaeth.

4. Mae gan rai disgyblaethau creadigol fodiwl sy'n datblygu sgiliau entrepreneuriaidd y myfyriwr, gan gynnwys cynhyrchu pecyn sy'n cynnwys cerdyn busnes, presenoldeb ar y we, ffilm fer i dangos eu rhinweddau, yn ogystal â CV. Caiff y pecynnau eu hadolygu gan bobl broffesiynol sy'n darparu adborth i'r myfyriwr. Y prif her yw canfod digon o bobl broffesiynol i gefnogi'r fenter.

5. Mae gwobrau cyflogadwyedd yn cydnabod gweithgareddau allgyrsiol / cyd-gyrsiol myfyrwyr mewn meysydd megis chwaraeon, gwirfoddoli, cymdeithasau myfyrwyr, gwasanaeth cymunedol, a gwaith ar y campws.

6. Mae angen i'r cynlluniau dderbyn cefnogaeth gan weithdai wedi eu rheoli'n dda ac adnoddau ar-lein, a dylid sefydlu cysylltiadau gyda PDP y myfyriwr. Gall y cynlluniau hefyd ddarparu cyfle i ôl-raddedigion fentora israddedigion.

7. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau yn mynd drwy gyfnod peilot, ond maent yn boblogaidd iawn, a'r her fwyaf fydd rhedeg y cynlluniau ar raddfa ehangach. O gofio fod yr adnoddau sydd ar gael yn brin, byddai'n gymorth canfod noddwyr ar gyfer y cynlluniau o blith busnesau a chyflogwyr lleol.

8. Mae rhai gwobrau yn gysylltiedig â menter *Go Wales* a gall fod yno gyfleoedd i fyfyrwyr ennill cymhwyster ychwanegol (e.e. City & Guilds lefel 4).

Datblygu Nodweddion Graddedigion

Mae cydnabod a chofnodi nodweddion graddedigion wedi dod yn agwedd gyffredin o'r cwricwlwm mewn llawer o brifysgolion. Mae astudiaethau achos yn dangos sut mae nodweddion graddedigion yn mynd i'r afael â'r sgiliau a'r medrau sydd eu hangen ar gyflogwyr, a rhoddir rhai o'r negeseuon allweddol o'r astudiaethau isod.

1. Gellir asesu nodweddion graddedigion orau drwy amrywiaeth o ddulliau (e.e. portffolios, cyflwyniadau, wikis grŵp, creu tudalen ar y we, cofnod adlewyrchol, aseiniadau llyfr-agored wedi eu hasesu).

2. Gellir cynnwys cynlluniau ar gyfer datblygu medrau mewn rhaglenni gradd, ond bydd hyn yn gofyn am newid diwylliant ar ran staff a myfyrwyr. Golyga natur fwy anelwig medrau y bydd myfyrwyr yn blaenoriaethu aseiniadau sydd ag iddynt elfen gyfansymiol, ac mae hyn yn her sylweddol yn nhermau cael myfyrwyr i gydnabod ac adlewyrchu

ar ddatblygu medrau. Ynghyd â hyn, mae'n bosibl nad yw gwerthuso modylau yn ddull effeithiol o asesu datblygiad medrau.

3. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r proffesiwn meddygol ac iechyd wedi gwella eu dulliau o asesu ar gyfer gwerthuso sgiliau a medrau ymarfer myfyrwyr. Mae'n bosibl y gellir trosglwyddo agweddau o'r Arholiadau Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol hyn i feysydd disgyblaeth eraill.

4. Gall darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ystyried nodweddion na wyddir cymaint amdanynt (e.e. deallusrwydd emosiynol) arwain at gydweithredu rhwng disgyblaethau (e.e. busnes, iechyd a lles).

5. Ar lefel ôl-raddedig, mae yno angen am ymagweddiadau a mentrau arbennig er mwyn datblygu'r sgiliau adlewyrchol beirniadol sy'n hanfodol ar y lefel hon o astudiaeth.

6. Mae gan nifer o sefydliadau gynlluniau estyn-allan gydag ysgolion lleol (e.e. gweryslyoedd-technoleg, clybiau cyfrifiaduol, cyrsiau byr penodol ar gyfer disgyblaeth) ac mae'r rhain yn darparu cyfle da iawn i fyfyrwyr ddatblygu amrediad o sgiliau a medrau, yn ogystal â gwella cysylltiadau gyda'r gymuned leol.

Datblygu Arweinyddiaeth a Menter

Mae'r astudiaethau achos yn disgrifio amrediad o ymagweddiadau tuag at ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth a menter, megis paratoi syniadau busnes neu fynd i'r afael â phroblemau a heriau busnes. Mewn rhai achosion, cyflwynir tystysgrifau ffurfiol am sgiliau arweinyddiaeth a menter. Dyma'r negeseuon sy'n deillio o'r astudiaethau.

1. Mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi, a hyd yn oed yn mwynhau'r dulliau a ddefnyddir i asesu grwpiau sy'n cyflwyno cynlluniau busnes mewn amgylchedd cystadleuol wedi ei ffugio (e.e. cyflwyniadau yn arddull Dragons' Den/Apprentice) oherwydd y perthnasedd proffesiynol i'r byd go-iawn.

2. Mae bron bob aseiniad menter ac arweinyddiaeth yn cynnwys gwaith grŵp. Gall hyn fod yn anodd i rai myfyrwyr, felly mae angen briffio a pharatoi gofalus o'r grwpiau. Mae angen i rai myfyrwyr wybod fod gwaith-tîm yn y byd go-iawn yn aml yn golygu gweithio gyda phobl na fyddech yn eu hystried i fod yn ffrindiau.

3. Mae cynnwys ymarferwyr a phobl broffesiynol eraill mewn gwerthuso cynlluniau busnes yn ffordd o arddangos dysgu blaengar i'r gymuned fusnes a gall arwain ymlaen at waith cydweithredol gyda mentrau lleol neu at fyfyrwyr yn mynd ati i sefydlu eu busnesau eu hunain. Gall cynlluniau sefydliadol sy'n darparu'r cyfle i ymgeiso am gyllid i sefydlu busnes arwain at hunan-gyflogaeth ymhlith graddedigion.

4. Mae'r aseiniadau grŵp yn parhau am semester neu hyd yn oed am flwyddyn academiaidd, felly mae yno angen am ymagweddiad barhaus neu reolaidd tuag at ddarparu adborth ffurfiannol, er enghraifft drwy weithdai.

5. Mae cyflwyno cynlluniau menter i mewn i'r cwricwlwm yn ffordd effeithiol o hyrwyddo gweithio rhyng-ddisgyblaethol, gyda thimau neu grwpiau o fyfyrwyr ar draws amrediad o ddisgyblaethau. Yn ystod y cyfnod peilot, efallai y byddai'n syniad i ffocysu ar ddisgyblaethau gwybyddol a darparu adnoddau electronig i gynnig cefnogaeth i grŵp amrywiol o fyfyrwyr (e.e. hŷn, rhan-amser, llawn-amser, rhyngwladol).

Ymestyn Rhwydweithiau Proffesiynol

Mae'r astudiaethau achos yn dangos ffyrdd y gellir datblygu a meithrin rhwydweithiau proffesiynol, a'u cysylltu â gwaith prosiect myfyrwyr, aseiniadau dysgu yn y gweithle neu leoliadau gwaith. Dyma rai sylwadau cyffredinol ar yr astudiaethau achos.

1. Mae gwahanol ddisgyblaethau wedi mabwysiadu ymagweddiadau tuag at rwydweithio proffesiynol sy'n briodol i'w cymeriad. Er enghraifft, gall celf a dylunio ddefnyddio arddangosfeydd neu wyliau i gyflwyno myfyrwyr i rwydweithiau proffesiynol; mae disgyblaethau nyrsio a gofal iechyd yn defnyddio ymddiriedolaethau gofal iechyd lleol i ddarparu rhwydwaith broffesiynol; a gall disgyblaethau perianyddol greu consortiwm o gwmnïau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith.

2. Beth bynnag fo'r ymagweddiad, mae'n eglur fod myfyrwyr yn gweld budd sylweddol mewn cael pobl broffesiynol i adolygu eu cynnydd. Yn arbennig, gall ymgysylltiad proffesiynol gynyddu eu hyder a gwella eu rhagolygon o ganfod swyddi.

3. Gellir cynnwys myfyrwyr mewn rhwydweithiau proffesiynol drwy fodylau wedi eu dylunio'n benodol ar eu cyfer, fel rhan o brosiect neu leoliad gwaith, neu fel digwyddiad o fewn rhaglen (e.e. ffair swyddi a ffug-gyfweliadau).

4. Mae cynlluniau rhwydweithio mwy uchelgeisiol (e.e. gwyliau, consortiwm o gwmnïau) fel arfer yn gofyn am gyfraniad ariannol gan y cyrff allanol i fod yn gynaliadwy.

5. Mewn rhai achosion, gall fod yn well bod â modylau sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithio cyn y flwyddyn olaf fel y gallant ddechrau sefydlu eu hunain o fewn i rwydwaith broffesiynol yn eu blwyddyn olaf.

Adnoddau i Gefnogi Cyflogadwyedd

Mae'r astudiaethau achos yn ffocysu'n bennaf ar adnoddau electronig a ddarperir gan sefydliadau i gynorthwyo cyflogadwyedd, ond maent hefyd yn cynnwys gweithgareddau megis ffeiriau cyflogaeth a theithiau maes. Rhoddir rhai nodweddion allweddol o'r astudiaethau o achos isod.

1. Mae'r ymagweddiad ar-lein yn darparu mynediad 24/7 i adnoddau, felly gellir cyrraedd poblogaeth myfyrwyr amrywiol, ac fe'i gwelir fel rhywbeth sy'n fwy effeithiol na chyflwyniadau ar ffurf darlith.
2. Ystyrir adnoddau electronig fel rhywbeth sy'n cyflenwi a chynorthwyo amrediad o weithgareddau wyneb-yn-wyneb a ddarperir gan y gwasanaeth gyrfaoedd a staff o fewn adrannau academaidd. Gellir cynnwys yr adnoddau o fewn rhaglenni academaidd a'u cysylltu ag e-bortffolios PDP.
3. Gellir hefyd darparu adnoddau cyflogadwyedd ar-lein i alumni a chyfrannu at strategaeth dysgu gydol oes y sefydliad.

4. Mae'n bosibl canfod cyllido gan gyrff proffesiynol er mwyn sefydlu gwefannau ac adnoddau cyflogadwyedd ar-lein, ond mae angen i dîmau prosiect edrych yn ofalus ar sut y cynhelir y wefan dros gyfnod o amser.

5. Gellir dylunio'r adnodd ar-lein fel ei fod yn hyrwyddo rhwydweithio rhwng myfyrwyr a chyflogwyr, ac yn hwyluso mentora gan gyfoedion ymysg myfyrwyr sydd ar leoliad yn y gweithle.

Mae aelodau o faes gwaith Dysgu mewn Cyflogaeth yn gobeithio fod y daflen hon wedi bod o ddefnydd i chi. Os hoffech chi wybod mwy am ymagweddiadau cyfredol tuag at hyrwyddo cyflogadwyedd, gallwch fwrw golwg dros gasgliad o astudiaethau achos drwy ddilyn y ddolen ganlynol

http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/events/academyevents/2012/Learning_for_Employment_Welsh_200412_1531.pdf

Dr Colleen Connor
Arweinydd Maes Gwaith Dysgu er Cyflogaeth
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Ebrill 2013



Am Gyfeiriadau'r Dyfodol

Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru wedi ymrwmo i ddarparu myfyrwyr â'r profiad gorau posibl. Golyga hyn weithio'n barhaus i wella ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr. Mewn addysg uwch, gelwir hyn yn 'wella ansawdd' a gall ddigwydd ar lefel prifysgol, adran a chwrs. Mae prifysgolion a cholegau addysg bellach sy'n cynnig addysg uwch yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd ar raglen gwella ansawdd o'r enw 'Cyfeiriadau'r Dyfodol'.


Mae rhaglen Cyfeiriadau'r Dyfodol yn unigryw i Gymru. Mae prifysgolion, staff, myfyrwyr, colegau addysg bellach ac amrediad o fudiadau yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'r ymagweddiad hon yn gweithio yng Nghymru oherwydd maint y wlad – mae'n ddigon bach i ddod â'r rhanddeiliaid allweddol i gyd at ei gilydd, ond yn ddigon mawr i gynnig amrywiaeth eang o brifysgolion a ffyrdd creadigol o wneud pethau. Nod y rhaglen yw gwella meysydd penodol o brofiad dysgu myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion a chreu syniadau ar gyfer blaengarwch mewn dysgu ac addysgu.

Caiff gwaith Cyfeiriadau'r Dyfodol ei gydlynu gan yr Academi Addysg Uwch, ac mae'n eiddo i'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae Cyfeiriadau'r Dyfodol yn gweithredu fesul thema; cyd-weithio ar un maes neu thema benodol ar y tro. Caiff y themâu eu dewis gan y sector addysg uwch, ar gyfer y sector addysg uwch.

Y thema gyfredol yw Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol gyda thri maes gwaith:

- Dysgu er Cyflogaeth
- Dysgu mewn Cyflogaeth
- Myfyrwyr fel Partneriaid

I ddarganfod mwy am fenter Cyfeiriadau'r Dyfodol, gweler: <http://www.heacademy.ac.uk/wales/future-directions>



Cysylltwch â ni

Academi Addysg Uwch Cymru
d/o Addysg Uwch Cymru
2 Caspian Point
Ffordd Caspian
Bae Caerdydd
Caerdydd

+44 (0) 292 0471 520
wales@heacademy.ac.uk

© The Higher Education Academy, 2013

Corff cenedlaethol yw'r HEA sy'n gwella dysgu ac addysgu ym maes addysg uwch ar draws y DU. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau ar draws y system AU i helpu gwneud newidiadau ym maes dysgu ac addysgu er mwyn gwella'r deilliannau i fyfyrwyr. Rydym yn gwneud hyn trwy gydnabod a gwobrwyo addysgu rhagorol, gan ddod â phobl ac adnoddau at ei gilydd a rhannu arfer gorau, a thrwy helpu i ddylanwadu ar, siapio a gweithredu polisi.

Mae'r HEA yn cefnogi staff addysg uwch trwy gydol eu gyrfa o'r rheiny sy'n newydd ym maes addysgu i'r rheiny sy'n uwch-reolwyr. Rydym yn cynnig gwasanaethau mewn 28 o ddisgyblaethau trwy gydol y DU ac mae gennym swyddfeydd yn Lloegr, Cymru a'r Alban. Trwy'r tîm rheoli partneriaethau rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau i ddeall sefyllfeydd a blaenoriaethau unigol a dod ag adnoddau at ei gilydd i'w hateb. Mae gwybodaeth, profiad ac arbenigedd gan yr HEA ym maes addysg uwch. Mae ei gwasanaeth a'i hamrywiaeth o gynnyrch yn fwy eang nag unrhyw rai o'i chystadleuwyr, ac mae pobl yn ymddiried yn yr Academi i ddarparu cyraeddiadau system AU mewn partneriaeth gyda'i sefydliadau sy'n cyfrannu.